Feburary 2024

**Help inform the future of support for autistic young people**

**The Autism Education Trust: 'Autism in Schools and Settings' - Monmouthshire**

Dear Parents and Carers,

We are a team of independent researchers working with the Autism Education Trust to evaluate the effectiveness of the 'Autism in Schools and Settings' Programme. This programme aims to improve understanding of autism and access to education in schools and settings across Monmouthshire.

The views of autistic pupils and their parents are vital for us to understand whether the programme has its desired impact. **With your consent, we would like to invite you and your child to answer a short questionnaire about the support provided at school.**

Please note that the pupil survey is only for children in KS2 – If your child is in KS1 or attends an Early Years' setting they will not be required to complete the pupil survey. This research will help inform future support for autistic young people.

**How to participate:**

The survey has two parts. The first section is for parents/carers (approx. 15 minutes to complete) and the second part is for pupils in Years 3-6 (approx. 10 minutes to complete). You can stop the survey and return from the same place using the link below provided you use the same browser. **If you would like to participate, please follow the link or scan the QR code below.**

https://surveys.clearoutcome.co.uk/s/XBFU4R/

If you cannot open this by clicking on it, please type the above (case-sensitive) URL into your Internet browser. The deadline for completing this first survey is **Friday 12th April.**

Both you and your child's answers will remain confidential and will be saved in password protected computers. We will ask you for the first letters of their name, their school name, school year-group and date birth so that we can match up their responses. After this, the identifying data will be destroyed, and the responses will be anonymous. Only the research team will have access to this personal data and will work to protect their identity and will not share details with anyone else – including your school. Anonymised data may be used in reports provided to the National Autistic Society and the Autism Education Trust and NHS-England. It may also be used in publications submitted to academic journals.

If you do not want to take part in this study, you can simply ignore this letter. Not taking part in this study is absolutely fine and will not affect your child's schooling in any way. We can withdraw any data from parents or students up until the end of July 2025. After this the identifying data will have been destroyed so we won't know which survey response is theirs.

Thank you again for your contribution to this research.

**If you have any questions and feedback (at any point during the research), please contact the research team.**

**How to contact the research team**

Alice Boddy, Independent Research Assocaite
Email: research@clearoutcome.co.uk

Ionawr 2024

**Helpu i lywio cymorth y dyfodol i bobl ifanc awtistig**

**Yr Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth: 'Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau' - Sir Fynwy**

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Rydym yn dîm o ymchwilwyr annibynnol sy'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth i werthuso effeithiolrwydd y Rhaglen 'Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau'. Nod y rhaglen hon yw gwella dealltwriaeth o awtistiaeth a mynediad i addysg mewn ysgolion a lleoliadau ar draws Sir Fynwy.

Mae barn disgyblion awtistig a'u rhieni yn hanfodol i ni ddeall a yw'r rhaglen yn cael yr effaith a ddymunir. **Gyda'ch caniatâd chi, hoffem eich gwahodd chi a'ch plentyn i ateb holiadur byr am y gefnogaeth a ddarperir yn yr ysgol.**

Sylwch fod yr arolwg disgyblion ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 yn unig – os yw eich plentyn yn CA1 neu'n mynychu lleoliad Blynyddoedd Cynnar, ni fydd yn ofynnol iddynt gwblhau'r arolwg disgyblion. Bydd yr ymchwil hwn yn helpu i lywio cymorth yn y dyfodol i bobl ifanc awtistig. s

**Sut i gymryd rhan:**

Mae dwy ran i'r arolwg. Mae'r adran gyntaf ar gyfer rhieni/gofalwyr (bydd angen tua 15 munud i'w chwblhau) a'r ail ran i ddisgyblion Blynyddoedd 3-6 (bydd angen tua 10 munud i'w chwblhau). Gallwch atal yr arolwg a dychwelyd i'r un lle gan ddefnyddio'r ddolen isod ar yr amod eich bod yn defnyddio'r un porwr. **Os hoffech gymryd rhan, dilynwch y ddolen neu sganiwch y cod QR isod.**

[Dolen i arolwg SmartSurvey – Cynradd]

Os na allwch agor yr holiadur ar ôl clicio ar y ddolen, teipiwch yr URL uchod (sy'n sensitif i ddefnyddio llythrennau mawr/bach) yn eich porwr Rhyngrwyd. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg cyntaf hwn yw **dydd Gwener, 22ain Mawrth 2024.**

Bydd eich atebion chi a'ch plentyn yn aros yn gyfrinachol ac yn cael eu cadw mewn cyfrifiaduron sydd wedi'u diogelu gan gyfrinair. Byddwn yn gofyn i chi am lythrennau cyntaf eu henw, enw eu hysgol, grŵp blwyddyn ysgol a dyddiad geni fel y gallwn baru ymatebion. Ar ôl hyn, bydd y data adnabod yn cael ei ddinistrio, a bydd yr ymatebion yn ddienw. Dim ond y tîm ymchwil fydd yn medru cael mynediad at y data personol hwn a byddwn yn gweithio i ddiogelu hunaniaeth y sawl sydd yn cymryd rhan ac yn ymatal rhag rhannu manylion ag unrhyw un arall - gan gynnwys eich ysgol. Bydd data dienw yn cael ei ddefnyddio o bosib mewn adroddiadau a ddarperir i'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth a GIG-Lloegr. Gellir ei ddefnyddio hefyd mewn cyhoeddiadau a gyflwynir i gyfnodolion academaidd.

Os nad ydych am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, gallwch anwybyddu'r llythyr hwn. Mae peidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn hollol dderbyniol ac ni fydd yn effeithio ar addysg eich plentyn mewn unrhyw ffordd. Gallwn ddileu unrhyw ddata oddi wrth rieni neu fyfyrwyr hyd at ddiwedd Gorffennaf 2025. Ar ôl hyn, bydd y data adnabod yn cael ei ddinistrio, ac felly ni fyddwn yn gwybod pa ymatebion i'r arolwg yw eu hymatebion hwy.

Diolch unwaith eto am gyfrannu i'r ymchwil hwn.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau ac adborth (ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil), cysylltwch â'r tîm ymchwil.**

**Sut i gysylltu â'r tîm ymchwil**

Alice Boddy, Cydymaith Ymchwil Annibynnol
e-bost: research@clearoutcome.co.uk